**Neges John Elias am y Groes**

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle a ddaeth i mi lunio, rai blynyddoedd yn ôl, gyfrol ddwyieithog ar John Elias a'i Gyd Fethodistiaid Calfinaidd 1791–1841 (Llangoed, 2007), a chytunaf gyda William Bulkeley Hughes, Aelod Seneddol, pan ddywedodd amdano, ar ôl gweld llun y seraff-bregethwr: 'Ie, dyma fo, un o'r dynion gorau a welais erioed, ac felly yr arferai fy Nhad ddweud amdano bob amser.'

Dyna oedd barn gŵr mawr ei gyfnod o fewn y capeli a thu allan, bonedd a gwerin, a chostrelodd ei holl ddiwinyddiaeth i'w unig emyn sydd wedi goroesi, sef rhif 482 yn Caneuon Ffydd. Cyfansoddodd John Elias (1774-1841) yr emyn am fod morwyn ar ei aelwyd wedi gofyn iddo ar derfyn oedfa fer ar ddiwrnod gwaith, ac yntau wedi darllen am y Gwas Dioddefus o Lyfr Eseia, pennod 53, y cwestiwn meddylgar:

'Ai am fy meiau i y dioddefodd Iesu mawr?'

Methodd ymateb fel ag y dylai, ond cyn diwedd y dydd fe ddaeth yr ateb ar ffurf emyn. Ac y mae'r ateb yn un cofiadwy dros ben. Esbonia'n glir y rhesymau pam y bu'n rhaid i Iesu ddioddef marwolaeth y Groes a hynny ar sail athrawiaeth y Calfiniaid a bwysleisiai gyflawni'r gyfraith a thalu'r ddyled. Ond prif waith y Groes yw troi'r pechadur yn ddyn newydd anedig.

'a'i waed a ylch y galon ddu
yn lân fel eira gwyn.'

Ni ellir dweud yn well y gwirionedd na wnaeth John Elias yn y pedwerydd pennill:

'Bu'n angau i'n hangau ni
wrth farw ar y pren,
a thrwy ei waed y dygir llu,
drwy angau, i'r nefoedd wen.'

Pennill i'w ddysgu ar y cof yn sicr, ac felly hefyd y ddau bennill dilynol:

'Pan grymodd ef ei ben
wrth farw yn ein lle,
agorodd ffordd, pan rwygai'r llen,
i bur drigfannau'r ne'.'

Gelwir Cristnogaeth yn Grefydd y Ffordd Newydd a chawn y rheswm am hynny yn ei ddiweddglo:

'Gorchfygodd uffern ddu,
gwnaeth ben y sarff yn friw;
o'r carchar caeth y dygir llu,
drwy ras, i deulu Duw.'

Clywaf yr emyn ar dôn J. T. Rees, Pen-parc, yn fy nghlustiau'r funud hon.

***D. Ben Rees***